OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 767 (Cy. 167)

# ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) (Arolygwyr Cymeradwy) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 4.04 p.m. ar 5 Gorffennaf 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *7 Gorffennaf 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *28 Gorffennaf 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 167(1) a (2) o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) (Arolygwyr Cymeradwy) (Cymru) 2022.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 28 Gorffennaf 2022.

**Diwygio Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer rheoliad 5A (yswiriant arolygydd cymeradwy)(**3**).

(3) Yn rheoliad 7 (rhestrau o gymeradwyaethau a dynodiadau)(**4**)—

(a) yn lle paragraff (1)(c) rhodder—

"(c) in relation to Wales, in respect of each approved inspector listed, keep a copy of the approval certificate.";

(**1**) 2022 p. 30.

(**2**) O.S. 2010/2215, yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2012/3119, 2013/747 (Cy. 89), 2014/58 (Cy. 5), 2015/767 a 2018/558 (Cy. 97).

(**3**) Mewnosodwyd rheoliad 5A gan O.S. 2012/3119 mewn perthynas ag adeiladau ynni a eithrir yng Nghymru a chan O.S. 2014/58 (Cy. 5) o ran Cymru heblaw mewn perthynas ag adeiladau ynni a eithrir. Diwygiodd O.S. 2018/558 (Cy. 97) reoliad 5A i'r graddau y mae'n gymwys i adeiladau ynni a eithrir yng Nghymru.

(**4**) Diwygiwyd rheoliad 7 mewn perthynas ag adeiladau ynni a eithrir yng Nghymru gan O.S. 2012/3119 a 2018/558 (Cy. 97) ac o ran Cymru heblaw mewn perthynas ag adeiladau ynni a eithrir gan O.S. 2014/58 (Cy. 5).

(b) yn lle paragraff (3)(b) rhodder—

"(b) in relation to Wales, in respect of each approved inspector listed, keep a copy of the approval certificate;".

(4) Yn rheoliad 9 (annibyniaeth arolygwyr cymeradwy) yn lle paragraff (4)(c) rhodder—

"(c) in relation to Wales, potential liability to pay any sum if a claim is made under any insurance cover,".

(5) Yn Atodlen 1(**5**) (ffurflenni)—

(a) Yn Ffurflen 1 (hysbysiad cychwynnol) yn lle paragraff 13 rhodder—

"**13.** A copy of the notice of approval as an approved inspector under regulation 5 of the 2010 Regulations in relation to the work described in this initial notice is on the register kept by the body designated under regulation 3 of the 2010 Regulations.";

(b) Yn Ffurflen 2 (hysbysiad diwygio) yn lle paragraff 13 rhodder—

"**13.** A copy of the notice of approval as an approved inspector under regulation 5 of the 2010 Regulations in relation to the work described in the initial notice (as varied by this amendment notice) is on the register kept by the body designated under regulation 3 of the 2010 Regulations.";

(c) Yn Ffurflen 3 (tystysgrif planiau) yn lle paragraff 3 rhodder—

"**3.** A copy of the notice of approval as an approved inspector under regulation 5 of the 2010 Regulations in relation to the work described in this plans certificate is on the register kept by the body designated under regulation 3 of the 2010 Regulations.";

(d) Yn Ffurflen 4 (hysbysiad cychwynnol a thystysgrif planiau cyfunol) yn lle paragraff 17 rhodder—

"**17.** A copy of the notice of approval as an approved inspector under regulation 5 of the 2010 Regulations in relation to the work described in this initial notice is on the register kept by the body designated under regulation 3 of the 2010 Regulations.";

(e) Yn Ffurflen 5 (tystysgrif derfynol) yn lle paragraff 6 rhodder—

"**6.** A copy of the notice of approval as an approved inspector under regulation 5 of the 2010 Regulations in relation to the work described in this final certificate is on the register kept by the body designated under regulation 3 of the 2010 Regulations."

(6) Yn Atodlen 2 (y seiliau dros wrthod hysbysiad cychwynnol, hysbysiad diwygio, neu dystysgrif planiau wedi ei chyfuno â hysbysiad cychwynnol) hepgorer paragraff 6(**6**).

(7) Yn Atodlen 3 (y seiliau dros wrthod tystysgrif planiau etc.) hepgorer paragraff 6.

(8) Yn Atodlen 4 (y seiliau dros wrthod tystysgrif derfynol) hepgorer paragraff 5.

*Julie James*
Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru

Am 4.04 p.m. ar 5 Gorffennaf 2022

(**5**) Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2014/58 (Cy. 5) ac, mewn perthynas ag adeiladau ynni a eithrir yng Nghymru, rheoliad 22 o O.S. 2018/558 (Cy .97) a amnewidiodd ffurflenni 1 hyd at 12 fel y maent yn gymwys i adeiladau yng Nghymru heblaw adeiladau ynni a eithrir fel bod y ffurflenni hynny hefyd yn gymwys i adeiladau ynni a eithrir yng Nghymru.

(**6**) Diwygiwyd paragraffau 6 o Atodlenni 2 a 3 a pharagraff 5 o Atodlen 4 mewn perthynas ag adeiladau ynni a eithrir yng Nghymru gan O.S. 2012/3119 a 2018/558 (Cy. 97) ac o ran Cymru heblaw adeiladau ynni a eithrir gan O.S. 2014/58 (Cy. 5)>.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 ("y Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy"). Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn ganlyniadol ar adran 48 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022. Mae'r adran honno yn gwneud diddymiadau i Ddeddf Adeiladu 1984 mewn cysylltiad â gofynion yswiriant arolygwyr cymeradwy.

Mae rheoliad 2(2) yn hepgor rheoliad 5A (yswiriant arolygydd cymeradwy) o'r Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy, gan ddileu'r gofyniad i ddatganiad o yswiriant fod ym meddiant y person a gymeradwyodd yr arolygydd. Mae rheoliad 2(3) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i reoliad 7 ac mae rheoliad 2(4) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i reoliad 9. Mae rheoliad 2(5) yn diwygio'r ffurflenni yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy fel nad yw'r ffurflenni yn cyfeirio mwyach at y datganiad o yswiriant. Mae rheoliad 2(6) hyd at (8) yn diwygio Atodlenni 2, 3 a 4 i'r Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy er mwyn dileu o bob un o'r Atodlenni hyn y sail dros wrthod sy'n ymwneud â'r datganiad o yswiriant.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.